

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 29 Ionawr 2025

Annwyl Cyngorydd,

CYNGOR

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Hybrid yn Siambr y Cyngor Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 5 Chwefror 2025 am 16:00.**

AGENDA

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2 Datganiadau o fuddiant

Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3 Cymeradwyaeth Cofnodion

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 15/01/2025

7 - 16

4 I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:

- (i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
- (ii) Prif Weithredwr

5 Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

Ffon/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/SMS Messaging: 07581 157014 [Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Test relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croseawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

- 6 Mabwysiadu'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd mewn Profedigaeth oherwydd Trasiedi Gyhoeddus 17 - 20
- 7 Diweddariad Chwarter 3 y Rhaglen Gyfalaf 2024-25 21 - 40
- 8 Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

Cynghorydd Heidi Bennett i'r Aelod Cabinet – Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai

Mae nifer o adeiladau adfeiliedig a diraddiol ar draws y Sir, ond mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar galon Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr lle mae nifer o adeiladau wedi bod yn adfeilion hylltra am flynyddoedd, hyd yn oed degawdau.

Rwy'n sylweddoli nad yw CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen ar unrhyw un o'r adeiladau adfeiliedig, ac efallai ei fod hyd yn oed yn cyfeirio perchnogion at gyfleoedd buddsoddi/grant. Rwyf hefyd yn cydnabod bod rhai perchnogion/datblygwyr wedi bod yn dod â rhai o'u hadeiladau yn ôl i ddefnydd, ac yn gwerthfawrogi ein bod ni i gyd wedi elwa o ddyluniadau ac adeiladau ysblennydd o ansawdd uchel mewn pocedi ledled y dref, yn enwedig y rhai sydd wedi trawsnewid economi'r nos.

Fodd bynnag, erys nifer o adeiladau nodedig lle nad yw'n ymddangos bod llawer o weithgarwch neu gynnydd wedi'i wneud gan berchnogion, os o gwbl, o ran dod â hwy yn ôl i ddefnydd.

A allai'r Aelod Cabinet perthnasol roi cyngor

- Beth mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ei wneud i wthio cynnydd ar Brif Gynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas ag uwchraddio, defnyddio neu adnewyddu'r adeiladau hyn a gwella canol ein tref?

9 Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd

Cynnig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar Gau 115 o Swyddfeydd Post Y Goron a'r Risg o Golli 1,000 o Swyddi

Y Cynnig:

Mae'r Cyngor yn nodi:

Cyhoeddiad diweddar Swyddfa'r Post Cyf / Llywodraeth y DU i gau 115 o Swyddfeydd Post y Goron ledled y wlad, gan roi swyddi tua 1,000 o weithwyr yn y sector post mewn perygl.

Y rôl allweddol sydd gan Swyddfeydd Post y Goron mewn sawl cymuned, yn arbennig ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol difreintiedig, lle maent yn cynnig gwasanaethau hanfodol fel gwasanaethau postio, bancio, talu biliau, a mynediad i wasanaethau'r llywodraeth.

Yr effaith gymdeithasol ac economaidd sylweddol ac andwyol a gaiff y cau hwn, nid yn unig ar y gweithwyr a fydd yn colli eu swyddi, ond hefyd ar y cymunedau sy'n dibynnu ar y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan Swyddfeydd Post y Goron, ac erydiad y gwasanaethau hynny mewn cymunedau sydd eisoes yn wynebu heriau.

Hanes hir Swyddfeydd Post y Goron fel rhan allweddol o'r seilwaith cenedlaethol, yn darparu gwasanaethau hygyrch o safon uchel i'r cyhoedd a chyflogi gweithwyr medrus.

Mae'r Cyngor yn credu:

Bod cau Swyddfeydd Post y Goron yn ymosodiad di-alw amdano ar wasanaethau cyhoeddus, swyddi, a'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt.

Bod colli 1,000 o swyddi yn y sector post am gael effaith andwyol ar deuluoedd, cymunedau, a'r economi leol, gan gyfrannu at gynydd mewn diweithdra ac annhegwch cymdeithasol mewn ardaloedd sydd eisoes yn ddifreintiedig.

Bod y llywodraeth a rheolwyr y post wedi methu â buddsoddi'n ddigonol yn rhwydwaith Swyddfa Post y Goron, ac nad ydynt wedi darparu cyfiawnhad digonol dros y bwriad o gau, sy'n ymddangos fel petai yn cael ei ysgogi gan gymhellion elw yn hytrach na lles y cyhoedd.

Bod y cau yn rhan o duedd ofidus, ehangach tuag at breifateiddio ac allanoli gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, sy'n tanseilio'r egwyddor o atebolrwydd cyhoeddus ac yn lleihau ansawdd, ac o bosib ystod, y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd.

Penderfyniadau:

Mynegi gwrthwynebiad llym y Cyngor i'r bwriad o gau 115 o Swyddfeydd Post y Goron ac i alw'n ffurfiol ar Swyddfa'r Post Cyf / Llywodraeth y DU i atal y rhaglen gau ar unwaith.

Cefnogi'r gweithwyr y mae'r posibilrwydd o golli 1,000 o swyddi yn effeithio arnynt, gan gynnwys cynnig uno undebau llafur a sefydliadau lleol sy'n ymgychu i achub Swyddfeydd Post y Goron.

Gweithio gydag awdurdodau lleol, undebau, a grwpiau cymunedol eraill i godi ymwybyddiaeth o'r effaith negyddol a gaiff cau'r swyddfeydd hyn, ac ysgogi gwrthwynebiad cyhoeddus i'r cynigion.

Galw ar Lywodraeth y DU a [Swyddfa'r Post Cyf] i sicrhau yr ymgynghorir yn briodol ar unrhyw gynlluniau ar gyfer Swyddfeydd Post y Goron yn y dyfodol, a bod buddiannau'r gweithwyr a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn cael ystyriaeth lawn.

Gwahodd cynrychiolwyr o [Swyddfa'r Post Cyf] i gyfarfod â'r Cyngor i drafod y cau, ac archwilio atebion amgen a fyddai'n sicrhau dyfodol rhwydwaith Swyddfa Post y Goron, yn diogelu swyddi, a pharhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r cyhoedd.

Penderfyniadau Pellach:

Cyflwyno llythyr ffurfiol o wrthwynebiad i [Swyddfa'r Post Cyf] ac i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Marchnad, yn mynegi pryder y Cyngor dros y bwriad o gau ac yn eu hannog i ail-ystyried y penderfyniad.

Annog trigolion lleol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori a chefnogi ymgyrchoedd er ceisio atal Swyddfeydd Post y Goron rhag cau.

Cynnig cymorth i weithwyr Swyddfa Post y Goron Pen-y-bont ar Ogwr sy'n wynebu diweithdra, gan gynnwys darparu mynediad i hyfforddiant, cymorth cyflogaeth, a mentrau ail hyfforddi ar gyfer swydd.

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghorwr:

Pob Cynghorydd